

Dychwelyd Gweithwyr i'r Gwaith yn Ddiogel

Canllawiau i Reolwyr

Mehafin 2020

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Cynnwys

| | |
|--|----------|
| Cyflwyniad | 3 |
| Gweithwyr nad ydynt yn gweithio | 3 |
| Grŵp 1 – Unigolion sy’n gwarchod (Agored lawn i Niwed oherwydd y Coronafeirws)..... | 3 |
| Grŵp 2 – Agored i Niwed (Mwy o Berygl o Salwch Difrifol)..... | 4 |
| Grŵp 3 –Gweithwyr sy’n byw gyda Grŵp 2 neu Grŵp 3 | 4 |
| Y Broses Asesu Risg | 5 |
| Cyngor Iechyd Galwedigaethol..... | 5 |
| Dychwelyd i’r Gwaith | 5 |
| Gweithwyr eraill nad ydynt yn gweithio | 5 |

Cyflwyniad

Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio'n gyffredinol, bydd gwasanaethau'n cael eu hadfer yn raddol. Mae gwasanaethau â blaenoriaeth wedi'u nodi a bydd y tîm Rheoli Pobl yn gweithio ochr yn ochr â rheolwyr i helpu i ddychwelyd gweithwyr i'r gweithle lle mae eu swyddi'n galw am hynny. Lle y gellir gwneud y gwaith gartref, mae'n rhaid i weithwyr barhau i weithio o'u cartrefi nes y cytunir ar drefniadau dychwelyd i'r gwaith/trefniadau gweithio o bell yn y tymor hir. Mae hyn yn unol â Chanllawiau'r Llywodraeth ac fe'i cyfarwyddwyd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth.

Gweithwyr nad ydynt yn gweithio

Mae llythyrau'n cael eu hanfon at yr holl weithwyr **nad ydynt yn gweithio** yn y grwpiau canlynol:

1. Gwarchod – y rheiny sydd wedi cael eu cynghori'n gryf gan Lywodraeth Cymru i aros gartref.
2. Grwpiau agored i niwed – y rheiny sydd wedi'u cynghori i fod yn arbennig o lym wrth ddilyn cyngor ynghylch cadw pellter cymdeithasol.
3. Y rheiny sy'n byw gyda'r naill neu'r llall o'r uchod.

Rydym yn disgwyl y bydd rheolwyr wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r gweithwyr hyn ac felly na ddylai'r llythyrau fod yn syndod i neb. Rydym yn gobeithio y bydd y rheolwyr, fel rhan o'r cyswllt rheolaidd, yn rhoi gwybod i'w gweithwyr bod llythyr a galwad ffôn i'w disgwyl a bod disgwyl iddynt gymryd rhan yn y broses. Bydd galwad ffôn gan ymgynghorydd adnoddau dynol yn dilyn y llythyr.

Grŵp 1 – Unigolion sy'n gwarchod (Agored iawn i Niwed Oherwydd y Coronafeirws)

Bydd y llythyr a'r sgwrs yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Amgylchiadau presennol ac archwilio pa waith y gellir ei wneud.
- Bydd disgwyl i'r gweithiwr gofrestru gyda'r [Hwb Sgiliau a Gweithlu](#), a sicrhau eu bod ar gael i ymgymryd â dyletswyddau eraill a all fod yn addas.
- Rhaid rhoi llythyr gwarchod i'r tîm Rheoli Pobl.

- Os yw'r gweithiwr am dychwelyd i'r gweithle, rhaid i'r rheolwr wneud atgyfeiriad i'r tîm Iechyd Galwedigaethol er mwyn cynnal asesiad risg. Bydd angen gwybodaeth am drefniadau rheoli lleol er mwyn cynnal asesiad Iechyd Galwedigaethol llawn ynghylch dychwelyd i'r gwaith; bydd yr ymgynghorydd adnoddau dynol yn anfon canllawiau at y rheolwr ynghylch yr hyn y bydd angen ei ddarparu. [Iechyd Galwedigaethol](#)

[Gallwch weld rhestr lawn o'r cyflyrau iechyd sy'n dod o dan y grŵp agored iawn i niwed drwy fynd i yma.](#)

Grŵp 2 – Agored i niwed (Mwy o Berygl o Gael Salwch Difrifol o Ganlyniad i'r Coronafeirws)

Bydd y llythyr a'r sgwrs yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Amgylchiadau presennol.
- Dychwelyd i'r gweithle a thrafod unrhyw bryderon.
- Disgwylir i'r gweithwyr hyn dychwelyd oni bai bod risgiau penodol yn gysylltiedig â'u hamgylchiadau a'u hamgylchedd gwaith.

Bydd angen atgyfeiriad i'r tîm [Iechyd Galwedigaethol](#) cyn dychwelyd. Bydd angen gwybodaeth am drefniadau rheoli lleol er mwyn cynnal asesiad Iechyd Galwedigaethol llawn ynghylch dychwelyd i'r gwaith; bydd yr ymgynghorydd adnoddau dynol yn anfon canllawiau at y rheolwr ynghylch yr hyn y bydd angen ei ddarparu.

Os na chynghorir dychwelyd i'w brif rôl, rhaid i'r gweithiwr gofrestru gyda'r [Hwb Sgiliau a Gweithlu](#) a sicrhau ei fod ar gael i ymgymryd â dyletswyddau eraill a all fod yn addas.

[Gallwch weld rhestr lawn o'r cyflyrau iechyd sy'n dod o dan y grŵp "risg uwch o salwch difrifol" drwy fynd yma.](#)

Grŵp 3 – Gweithwyr sy'n byw gyda Grŵp 2 neu Grŵp 3

Bydd y llythyr a'r sgwrs yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Disgwylir i'r gweithwyr hyn dychwelyd i'r gweithle.
- Bydd unrhyw bryderon yn cael eu trafod, a gall rheolwyr drafod asesiadau risg a threfniadau ar gyfer dychwelyd yn uniongyrchol.

Y Broses Asesu Risg

Mae'n bwysig, lle mae gweithwyr yn mynegi pryder ynghylch dychwelyd neu'r effaith ar aelodau o'u haelwyd, y dylid archwilio hyn drwy broses asesu risg. Mae [adnodd asesu risg](#) defnyddiol iawn wedi cael ei greu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y GIG a Gofal Cymdeithasol, ond gellir ei ddefnyddio ar gyfer yr holl leoliadau gwaith ac rydym yn eich cynghori chi a'ch gweithiwr i ddefnyddio hyn yn wrthrychol i asesu ei risg. Gellir gofyn am gyngor gan yr uned Iechyd Galwedigaethol hefyd.

Cyngor Iechyd Galwedigaethol

Gall y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Llesiant Gweithwyr roi cyngor ac arweiniad os yw unrhyw weithwyr yn cael problemau ynghylch dychwelyd i'r gweithle yn yr hinsawdd bresennol. Dylid dilyn canllawiau'r Llywodraeth ynghylch cadw pellter cymdeithasol a mesurau rheoli hylendid caeth yn barhaus. Ceir cyngor pellach ar wefan [gov.uk](#).

Dychwelyd i'r Gwaith

Bydd yr ymgynghorydd adnoddau dynol yn cysylltu â'r Rheolwr/Pennaeth a bydd y trefniadau ar gyfer dychwelyd i'r gweithle yn cael eu rheoli gan y Rheolwr/Pennaeth. Rhaid i unrhyw weithwyr nad ydynt yn gallu dychwelyd i'w gweithle arferol gofrestru gyda'r [Hwb Sgiliau a Gweithlu](#) a sicrhau eu bod ar gael i ymgymryd â dyletswyddau eraill a all fod yn addas.

Gweithwyr eraill nad ydynt yn gweithio

Dylai Rheolwyr/Pennaethiaid hefyd fod yn cysylltu â'r gweithwyr hynny nad ydynt yn gweithio, naill ai gan nad yw eu rolau'n eu galluogi i weithio gartref a/neu os oes ganddynt gyfrifoldebau gofal plant, gyda'r bwriad o'u dychwelyd i'r gweithle neu eu cyfeirio at yr [Hwb Sgiliau a Gweithlu](#) os nad yw gofal plant yn caniatáu iddynt dychwelyd i'w prif rolau. Gall eich ymgynghorydd adnoddau dynol roi templed i chi i helpu gyda'r drafodaeth hon.